**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: LG/0284/19

Mr Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

25 Gorffennaf 2019

Annwyl Mick

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth**

Diolch i chi am ystyriaeth ac adroddiadau'r Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ('LCM') a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ('SLCM') mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU.

Rwyf wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor yn ofalus ac mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar becyn i fynd i'r afael â phryderon. Byddwch yn sylweddoli bod hyn yn cynnwys trafodaethau cymhleth â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill, ond serch hynny, rwy'n hapus â'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Rwy'n darparu'r wybodaeth sydd ar gael hyd yn hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Bydd fy swyddogion yn barod i ddarparu papur briffio technegol, yn gyfrinachol, yn ymwneud â'r materion sy'n parhau i fod yn destun trafodaeth â Llywodraeth y DU os bydd hynny'n fuddiol i chi. Fel y gwyddoch, mae'r Bil wedi cael ei oedi yn Senedd y DU ar hyn o bryd, a byddaf yn ymateb yn llawn pan fydd y Bil yn parhau i gael ei drafod yno. Hefyd, rwy'n bwriadu diweddaru'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil a chyflwyno Datganiad Esboniadol i'r Cynulliad i ategu'r LCMs. Bydd y Datganiad Esboniadol yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y Bil, gan gynnwys sut y defnyddir y pwerau i wneud rheoliadau, cyfiawnhau gweithdrefnau a dulliau o sicrhau tryloywder, a chynnwys y Cynulliad Cenedlaethol.

Hoffwn nodi rhannau penodol o'r pecyn er mwyn dangos fy ymrwymiad i dryloywder, fy mharch at waith y Cynulliad yn craffu ar ddeddfwriaeth, a'r ffaith fy mod wedi gwrando ar safbwyntiau'r Cynulliad, a'u hystyried.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Bil Amaethyddiaeth Cymru

Rwy'n cadarnhau fy mod i'n dal i fwriadu defnyddio'r pwerau yn Atodlen 3 o Fil y DU. Mae angen y pwerau hyn arnom er mwyn dechrau symud i systemau cymorth newydd pan fyddwn yn barod i wneud hynny.

Rwy'n parhau i ymrwymo i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru, ac mae'r Prif Weinidog wedi rhoi diweddariad ein cynlluniau fel rhan o'i ddatganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar 16 Gorffennaf. Bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru yn fwyaf effeithiol os caiff ei gyflwyno yn y Cynulliad nesaf. Mae'n bwysig deddfu unwaith a deddfu'n dda. Dyma gyfle i fod yn uchelgeisiol a phellgyrhaeddol, mynd ymhellach na chynllun cymorth syml i ffermydd, ac ystyried materion fel hawliau ffermwyr tenant. Fe wnes i lansio 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' ar 9 Gorffennaf, sy'n cyflwyno ein cynigion uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys talu ffermwyr am eu camau gweithredu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau a dal carbon. Ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyflwyno Papur Gwyn cyn diwedd y Cynulliad hwn er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth.

Rwyf am roi'r sicrwydd deddfwriaethol y gofynnwyd amdano fel sylfaen i ymrwymiadau penodol sydd eisoes wedi'u gwneud gan Weinidogion. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion ddatblygu cymal "machlud" fel bod darpariaethau perthnasol ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn dod i ben ar ôl diwedd 31 Rhagfyr 2024.

## Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth

Mae'n dda gennyf ddarparu'r sicrwydd ychwanegol y gofynnwyd amdano ynglŷn â'r Cytundeb Dwyochrog rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar bwerau Sefydliad Masnach y Byd.

Mae cymal Sefydliad Masnach y Byd yn codi ystyriaethau cyfansoddiadol, cyfreithiol a pholisi pwysig a chymhleth. Mae'n ymwneud â meysydd datganoledig a meysydd a gedwir yn ôl. Mae polisi yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol a rheoleiddio masnach ryngwladol wedi'i gadw yn ôl, tra bod polisi yn ymwneud ag amaethyddiaeth a chydymffurfio a rhwymedigaethau rhyngwladol, a'u gweithredu, wedi'i ddatganoli oddi mewn i gymhwysedd deddfwriaethol. Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno ar statws darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd. Nid wyf yn barod i ildio safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, yn enwedig o ystyried y goblygiadau cyfansoddiadol ehangach. Fodd bynnag, rwyf wedi cytuno ar ffordd ymlaen gyda'r Ysgrifennydd Gwladol nad yw'n ymrwymo i'r mater.

Yr hyn sy'n bwysig i mi yw sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ar gymhwysedd Llywodraeth y DU. Felly, mae fy nhrafodaethau wedi canolbwyntio ar gryfhau'r dull llywodraethu sy'n sylfaen i ddefnyddio cymal Sefydliad Masnach y Byd er mwyn ceisio cyflawni hyn.

Rwyf wedi trafod y mater hwn sawl gwaith â'r Ysgrifennydd Gwladol, gan nodi'n glir bod ymrwymiad yr ymgynghoriad a gynigiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y lle cyntaf yn annerbyniol ac y gallai gael ei ddefnyddio i rwystro cymhwysedd Cymru i lunio polisi amaethyddol. Yn yr un modd, fe wnaethom gydnabod y byddai'n anodd i Lywodraeth y DU ildio feto unochrog dros y pŵer i wneud rheoliadau Sefydliad Masnach y Byd, gan ei bod yn gyfrifol am gynrychioli gwledydd y Deyrnas Unedig yn Sefydliad Masnach y Byd. Fe wnaethom gytuno y dylai ein swyddogion ddatblygu ystod o ddewisiadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i fynd i'r afael â'm mhryderon, ac y dylai'r dewisiadau hyn gael eu datblygu yn unol â chynsail y trafodaethau â Llywodraeth y DU ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a arweiniodd at y Cytundeb Rhynglywodraethol. Fy amcan negodi cyffredinol oedd sicrhau'r rôl gryfaf bosibl i Weinidogion Cymru wrth ddefnyddio'r pwerau.

Dyma beth rydym wedi'i gyflawni. Trwy'r cytundeb, rwyf wedi sicrhau rôl gref iawn i Gymru wrth lunio'r rheoliadau gwreiddiol o dan y cymal, a defnyddio'r rheoliadau yn barhaus. Mae hyn yn gryfach o lawer nag ymrwymiad yr ymgynghoriad cychwynnol, ac mae'n cynnwys ymrwymiad penodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol i barhau â'r broses ar sail consensws yn unol â dull gweithredu clir a thryloyw. Er nad yw hyn yn amddiffyniad absoliwt, mae'n gosod y bar yn uchel dros ben. Rwy'n cydnabod y bydd yn fwy anodd cyrraedd consensws mewn rhai sefyllfaoedd, ac mae swyddogion Llywodraeth

Cymru wedi cynnig dull o ddatrys gwahaniaethau sy'n rhan o'r Cytundeb. Mae'r dull hwn yn gadarn ac yn dryloyw, gan sicrhau bod safbwyntiau Gweinidogion yn cael eu hystyried yn briodol, ac yn hanfodol, yn cynnwys caniatâd i droi at banel annibynnol neu i Senedd y DU yn yr achosion mwyaf difrifol. Er enghraifft, os nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â rheoliadau arfaethedig ond bod Llywodraeth y DU yn penderfynu bwrw ymlaen, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno datganiadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i Senedd y DU. Er nad yn feto absoliwt, byddai'n rhaid i ddau Dŷ Senedd y DU gytuno'n fwriadol i gymeradwyo'r rheoliadau, gan ddiystyru gwrthwynebiadau Gweinidogion datganoledig ar sail gwybodaeth lawn. Os bydd yn ddefnyddiol, gall swyddogion ystyried a fyddai'n bosibl hysbysu'r Cynulliad a rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau ar is-ddeddfwriaeth wrth iddi gael ei pharatoi. Byddaf yn adolygu effeithiolrwydd y broses maes o law, gan ystyried a oes angen unrhyw addasiadau i'w chryfhau.

**Ardoll Cig Coch**

Yn unol â'm cais, mae cymal newydd sy'n datrys y broblem hirdymor o ddychwelyd yr ardoll cig coch wedi'i lunio gan Lywodraeth y DU, ac mae wedi'i gynnwys yn y Bil. Mae'r cymal newydd yn rhoi pwerau i Weinidogion, wrth weithredu ar y cyd, sefydlu cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau amaethyddol ym Mhrydain ailddosbarthu'r ardoll rhyngddynt. Bydd swyddogion yn parhau i ddatblygu cynllun wrth i'r ddeddfwriaeth basio trwy Senedd y DU er mwyn sicrhau bod system deg ar waith cyn gynted ag y bo modd.

**Cysylltiadau a Gwaith Rhyng-sefydliadol**

Rwy'n ystyried ystod o ddiwygiadau ac ymrwymiadau i roi dyletswyddau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru, gan sicrhau rôl glir i'r Cynulliad wrth graffu ar is-ddeddfwriaeth.

**Diweddariad ar *Brexit a'n Tir* a'r camau nesaf**

Ar 9 Gorffennaf fe lansiais ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, sy'n gofyn am eich safbwyntiau ar ein cynigion polisi diwygiedig i gefnogi ffermwyr Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 30 Hydref 2019. Hefyd, byddwn yn dechrau rhaglen wedi'i chynllunio ar y cyd yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio rhai o elfennau ymarferol y cynllun arfaethedig trwy gydweithio, na fyddai'n bosibl trwy ddefnyddio proses ymgynghori ysgrifenedig yn unig. Byddaf yn darparu'r amserlen ddangosol y gofynnwyd amdani ar gyfer datblygu'r cynllun newydd arfaethedig unwaith rwy'n gwybod mwy am ariannu yn y dyfodol ac ar ôl dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad. Hoffwn bwysleisio na fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud am gynlluniau yn y dyfodol nes bod ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hystyried. Hefyd, ni fydd unrhyw newid i Gynllun y Taliad Sylfaenol hyd at ac yn cynnwys 2020, ac ni fydd cynlluniau presennol yn cael eu dileu cyn y bydd unrhyw gynlluniau newydd yn barod.

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (cyhoeddwyd 04 Ionawr 2019) ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth**

| **Argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu at y Pwyllgor hwn mewn ymateb i'r eglurhad yr ydym yn gofyn amdano ym mharagraffau 101 a 107 o'r adroddiad hwn. | **Derbyn**<br><br>Fe ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod haf y llynedd gan nodi fy mod yn disgwyl y byddai trafodaethau ar y Bil yn mynd rhagddynt yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin.<br><br>Tua dechrau 2018, fe ystyriais yn ofalus pa mor ymarferol oedd cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol erbyn mis Medi 2018. O ystyried cymhlethdod ac arwyddocâd ymadawiad y DU â'r UE i'r sector amaethyddiaeth, fe ddes i'r casgliad fod angen mwy o amser i wneud gwaith datblygu polisi ac ymgynghori gofalus, trylwyr a manwl gyda'r rhai sy'n cael eu heffeithio. Ar 10 Gorffennaf cyhoeddais fy mod yn ystyried cynnwys darpariaethau yn ymwneud â Chymru'n benodol ym Mil Amaethyddiaeth y DU ar sail terfyn amser er mwyn darparu pwerau i ddechrau pontio'n raddol nes bod deddfwriaeth sylfaenol Cymru yn dod i rym.<br><br>Fis Gorffennaf diwethaf, cytunais i weithio gyda Llywodraeth y DU i gynnwys pwerau ym Mil y DU fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu parhau i weithredu cynlluniau presennol ar ôl i ni ymadael â'r UE, a'u bod yn gallu datblygu polisïau newydd i ganiatáu pontio effeithiol rhwng y Polisi Amaethyddol Cyffredinol a rhaglen rheoli tir newydd.<br><br>Roedd proses ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn briodol i Gymru, ac o dan yr amgylchiadau roedd yn ymarferol cynnwys y darpariaethau er mwyn rhoi sicrwydd i ffermwyr Cymru y bydd gan y Llywodraeth bwerau i'w cefnogi pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Heb y cyfryw bwerau, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu parhau i dalu cymorth amaethyddol ar ôl 2020 neu symud tuag at systemau cymorth newydd arfaethedig. Bydd hyn yn para am gyfnod dros dro nes bod modd cyflwyno Bil Amaethyddiaeth yn y Cynulliad. Anfonwyd cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i Swyddfa'r Cwnsler Seneddol ym mis Awst 2018.<br><br>Rwy'n ymrwymo o hyd i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol ac yn briodol. Cyflwynodd Prif Weinidog Cymru ddiweddariad ar y mater hwn yn ei ddatganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru yn fwyaf effeithiol os caiff ei gyflwyno yn y Cynulliad nesaf. Mae'n bwysig deddfu unwaith a deddfu'n dda. Dyma gyfle i fod yn uchelgeisiol a phellgyrhaeddol, mynd ymhellach na chynllun cymorth syml i ffermydd, ac ystyried materion fel hawliau ffermwyr |

| | |
|---|---|
| | tenant. Fe wnes i lansio 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' ar 9 Gorffennaf. Gan ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyflwyno Papur Gwyn cyn diwedd y Cynulliad hwn er mwyn paratoi ar gyfer deddfwriaeth. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ysgrifennu at y Pwyllgor hwn ac egluro a yw'r unig ddarpariaeth y mae ei hangen er mwyn i Weinidogion Cymru gael awdurdod cyfreithiol i wneud taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2020 (ac wedyn) wedi'i chynnwys ym mharagraff 8 o Atodlen 3 i'r Bil, fel y cytunwyd yn ystod y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae Brexit wedi creu ansicrwydd digynsail, ac rwyf am sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i allu diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir a sicrhau bod modd pontio i gynlluniau newydd arfaethedig gan osgoi unrhyw anfantais i ffermwyr Cymru. |
| **Argymhelliad 3**<br><br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet geisio diwygio Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig i fewnosod darpariaeth fachlud i'r perwyl na fydd Atodlen 3 yn berthnasol mwyach ar ôl y Pumed Cynulliad. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwyf wedi gwrando ar bryderon Pwyllgorau'r Cynulliad yn ymwneud ag absenoldeb cymal "machlud". Rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i ddatblygu cymal "machlud" fel bod darpariaethau perthnasol yn y Bil yn dod i ben o ddiwedd 31 Rhagfyr 2024. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Cwnsler Seneddol a Llywodraeth y DU i baratoi darpariaeth addas sy'n darparu'r sicrwydd deddfwriaethol y mae'r Pwyllgorau yn gofyn amdano yn ogystal â'r ymrwymiad penodol a wnaed eisoes y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn unol ag amserlen addas.<br><br>Rwy'n bwriadu cyflwyno'r ddarpariaeth hon fel gwelliant y Llywodraeth. |
| **Argymhelliad 4**<br><br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i 34ain adroddiad y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, o dan y teitl Agricultural Bill (HL Papur 194) a gyhoeddwyd ar 17 Hydref 2018 cyn dechrau'r trafod yn Nhŷ'r Arglwyddi, gan gopïo'r ymateb hwnnw i'r Pwyllgor hwn. | **Gwrthod**<br><br>Rwyf wedi gwrando ar y pryderon a fynegwyd gan Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â nifer y pwerau dirprwyedig yn y Bil, a'u priodoldeb. Am resymau atebolrwydd, ni fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ymateb i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio maes o law, a byddaf yn cyflwyno copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor. |
| **Argymhelliad 5**<br><br>Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r holl weithdrefnau sydd ynghlwm wrth y pwerau i wneud rheoliadau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru o dan Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, ac ystyried y safbwyntiau yr ydyn ni'n eu mynegi yn yr adroddiad hwn. | **Derbyn**<br><br>Rwyf wedi adolygu'r holl bwerau a gweithdrefnau. Mae Llywodraeth Cymru a Defra yn cydweithio i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â'r Bil. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd. |
| **Argymhelliad 6**<br><br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet osod dogfen atodol i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a'r ddogfen honno: | **Derbyn**<br><br>Byddaf yn cyflwyno Datganiad Esboniadol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r wybodaeth hon. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â phryderon y pwyllgor a nodir yn argymhelliad 6, ac |

| | |
|---|---|
| ▪ yn amlinellu canlyniad yr adolygiad yn argymhelliad 5;<br><br>▪ yn cyfiawnhau pam mae'n briodol ceisio pŵer i wneud rheoliadau ym mhob achos o fewn Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig;<br><br>▪ yn cyfiawnhau'r weithdrefn a ddewisir ym mhob achos, gan ystyried ein barn ninnau y dylid cael rhagdybiaeth o blaid y weithdrefn gadarnhaol o gofio nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud eto ar sut y bydd y pwerau i wneud rheoliadau yn cael eu defnyddio;<br><br>▪ yn esbonio unrhyw benderfyniad i wrthod argymhelliad 3;<br><br>▪ yn esbonio ac yn darparu esiampl ymarferol o ble y gallai fod angen y weithdrefn negyddol oherwydd yr angen i weithredu ar frys;<br><br>▪ yn esbonio drwy ba broses y bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio diwygio Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig, lle bernir bod hynny'n briodol. | rwy'n rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani pan fydd y Bil yn symud i'r cyfnod adrodd. Byddai fy swyddogion yn hoffi darparu papur briffio technegol yn ymwneud â'r materion sy'n parhau i fod yn destun trafodaeth os byddai hynny'n fuddiol i chi. |
| **Argymhelliad 7**<br><br>Dylid trefnu bod yr wybodaeth a gesglir o dan argymhelliad 6 ynglŷn â dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru ar gael i ASau ar gyfer y Cyfnod Adrodd ar Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig. | **Derbyn**<br><br>Rwy'n bwriadu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i bawb mewn da bryd ar gyfer cyfnod nesaf y Bil. |
| **Argymhelliad 8**<br><br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y nodiadau esboniadol i gyd-fynd â Bil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig pan gaiff ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd o dan argymhelliad 6 sy'n ymwneud â dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru. | **Derbyn**<br><br>Mae set ddiwygiedig o Nodiadau Esboniadol wedi'i pharatoi, a bydd yn cael ei chyhoeddi gyda'r wybodaeth a gasglwyd mewn ymateb i argymhelliad 6 pan fydd y Bil yn ailddechrau ei daith drwy Senedd y DU. |
| **Argymhelliad 9**<br><br>Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio i'r Pwyllgor hwn pam na fydd angen diwygio cymal 26 o Fil Amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig o bosibl i ddatrys y materion sydd wedi peri pryder i Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio a fyddai'r cytundeb rhwng y ddwy lywodraeth y soniodd amdano i bob pwrpas yn caniatáu i Weinidogion y Deyrnas Unedig weithredu mewn meysydd datganoledig heb unrhyw waith craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol. | Roedd fy Natganiad Ysgrifenedig ar 21 Mawrth yn cynnwys gwybodaeth am y Cytundeb Dwyochrog gyda Llywodraeth y DU ar ddefnyddio cymal Sefydliad Masnach y Byd (cymal 28). Mae hyn yn darparu dull cadarn a thryloyw o gynnwys Gweinidogion Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau, ac ar gyfer datrys anghydfodau ar faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y DU â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.<br><br>Mae cymal Sefydliad Masnach y Byd yn gymhleth ac mae'n ymwneud â meysydd datganoledig a meysydd a gedwir yn ôl. Er bod polisi yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol a rheoleiddio masnach ryngwladol wedi'i gadw yn ôl, mae polisi yn ymwneud ag amaethyddiaeth a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, a'u gweithredu, wedi'i ddatganoli. Rwyf wedi sicrhau'r rôl gryfaf posibl i Weinidogion Cymru wrth ddefnyddio'r |

| | |
|---|---|
| | pwerau, ac nid oes angen diwygio'r Bil yn fy marn i. Bydd is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â materion datganoledig yn parhau i gael ei chyflwyno gerbron y Cynulliad at ddibenion craffu yn y ffordd arferol.<br><br>Rwy'n nodi pryderon eraill y Pwyllgor yn yr adroddiad ar yr SLCM. Fodd bynnag, rwy'n parhau i gredu bod hwn yn ganlyniad da ac na ddylai atal gallu Cymru rhag llunio polisi a deddfwriaeth amaethyddol. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019) ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth**

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>Dylai'r Gweinidog roi manylion, yn ei dull gweithredu o ran y Bil Amaethyddiaeth a'r ffordd y mae'n ymdrin ag ef, ei bod wedi cydymffurfio â gofynion y cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn enwedig paragraffau 8 a 14 i 17 o'r Cytundeb hwnnw. | Rwyf wedi ymrwymo i'r egwyddor o dryloywder ac i rôl gyfreithlon y Cynulliad wrth graffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae angen sicrhau cydbwysedd - fel y nodir yn y cytundeb IIR - â'r angen am drafodaethau rhynglywodraethol cyfrinachol rhwng gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig, er enghraifft, mewn sefyllfaoedd lle mae trafodaethau yn ymwneud â materion penodol yn cael eu cynnal.<br><br>Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chymal Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil yn cydymffurfio â gofynion Cytundeb Dwyochrog IIR. Ysgrifennais at y Pwyllgor ar 24 Mai i'w hysbysu am ddyddiadau cyfarfodydd Grŵp Rhyngweinidogol EFRA yn y dyfodol, sy'n trafod y Bil Amaethyddiaeth a materion eraill yn ymwneud â Brexit. Mae crynodeb o'r trafodaethau yn cael ei gyhoeddi ar ôl pob cyfarfod, ac maent ar gael yma. https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs<br><br>Yn y dyfodol, byddaf yn darparu copi o grynodeb y cyfarfodydd i'r Pwyllgor ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'n trafodaethau.<br><br>Roedd y trafodaethau ar y Cytundeb Dwyochrog yn gymhleth ac yn sensitif, a chyflwynais gymaint o wybodaeth ag oedd yn briodol i'r Pwyllgor ar y pryd. Roedd y manylion llawn wedi'u cynnwys yn fy Natganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 21 Mawrth, sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan y Cynulliad Cenedlaethol. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rhaglen-rheoli-tir-y-dyfodol-diweddariad-chamau-nesaf<br><br>Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried sut y gellir rhoi gwybodaeth gyfrinachol i'r Cynulliad mewn sefyllfaoedd lle mae trafodaethau ar faterion penodol yn cael eu cynnal. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Rydym yn credu y dylid datblygu gweithdrefn sy'n debyg i'r weithdrefn a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog 30C sy'n cydnabod telerau'r Cytundeb Dwyochrog, | **Derbyn yn rhannol**<br><br>Rwyf wedi ymrwymo i'r egwyddor o dryloywder ac i rôl gyfreithlon y Cynulliad wrth graffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| ac sy'n gymwys i'r rheoliadau perthnasol a wneir o dan y Bil Amaethyddiaeth, ar ôl iddo ddod i rym. | Ar sail profiad Offerynnau Statudol Deddf Ymadael â'r UE, ni wnaeth Rheol Sefydlog 30C lwyddo i roi'r wybodaeth ofynnol i Aelodau'r Cynulliad. Mae swyddogion yn adolygu Rheol Sefydlog 30C, a gall y Pwyllgor Busnes gynnal ei adolygiad ei hun os yw'n dymuno. Rydym yn cynnig yr adolygiad hwn fel rhan o'r gwaith ehangach yn ymwneud â sut mae'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa yn gallu cydweithio'n effeithiol er budd pobl Cymru. Wrth reswm, byddaf yn ystyried sut i gynnwys y Cynulliad mewn rheoliadau yn ymwneud â chymal Sefydliad Masnach y Byd ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau. |